

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 10ed o Fawrth 2020.

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Erfyl Williams – Penygroes; Hefina M W Roberts, OP Huws, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni, Ffion Jones – Nantlle; Dafydd Thomas – Nebo, Harry Wyn Owen, Sian Dafydd Gareth Lloyd Jones – Talysarn; Sgt Non Edwards – eitem 2 / **Ymddiheuriadau:** Nerys Williams, Justin Davies, Dylan Herbert, Iona Wyn Jones – Penygroes; Judith Humphreys a Craig ab Iago – Cynghorwyr Sir.
- 2. Heddlu – Gwadd.** Croesawyd Non Edwards i'r cyfarfod. Dywedodd wrth y Cynghorwyr bod ffigyrau troseddau i fyny yn unol a'r wlad. Mae cynydd mewn trais, bwrghleriaeth, difrod, ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dywedodd fod Mark Holland wedi bod yn sal ers cyn y Nadolig, a bod Swyddog Cymunedol Geraint Williams wedi ei symud i ardal Penygroes wythnos yma nes bydd Mark yn gwella. Dywedodd fod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn Trem y Wyddfa, a bod yr Heddlu mewn cysylltiad ag ADRA i gael camerau CCTV yno. Dywedodd fod problemau diffyg staff ar hyn o bryd a mai dim ond 6 swyddog allan o 12 sydd ganddi ar hyn o bryd. Dywedodd bod ymgyrch i recriwtio swyddogion cymunedol newydd, a bod 5 i gael eu penodi ym mis Mai, ond ni fyddant ar y stryd tan gorffen eu hyfforddiant ym mis Awst. Dywedodd nad oes swyddog Heddlu ym Mhenygroes mwyach oherwydd y toriadau sydd wedi bod, a bod swyddogion yr Heddlu yn gweithio ar batrwm o 12 awr y dydd, 4 diwrnod yr wythnos, gyda seibiant o 4 diwrnod wedyn. Codwyd pryderon am gyffuriau yn ardal Dyffryn Nantlle, ac fe bwysleisiodd Sgt Edwards y dylid cysylltu gyda Crimestoppers gydag unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth am gyffuriau. Materion eraill i'w adrodd drwy gysylltu ag 101. Gellir cysylltu gyda Crimestoppers yn ddi-enw, a mae dyletswydd ar yr Heddlu i ddilyn i fyny ar yr adroddiadau. Rhaid cael yr wybodaeth er mwyn cael tystiolaeth. Dywedodd bod Intercept Team yn gweithio yng Ngogledd Cymru, a'u bod yn gweithredu ar 'intelligence'. Fe holwyd Sgt Edwards ar yr oedran ble mae bosib arestio plenty – dywedodd mai 10 yw'r isafswm, ond nad arestio yw'r llwybr gorau bob tro – mae bosib cyfeirio at yr Youth Offending Team, er mwyn ceisio atal rhag crimineiddio bywyd plentyn. Fe'i holwyd am ddiffyg swyddogion yn yr orsaf ym Mhenygroes i ateb y cyhoedd – fe ddywedodd bod hyn yr un fath yng Nghaernarfon, ble nad oes swyddogion ar gael i ateb y cyhoedd y rhan fwyaf o'r amser – yn hytrach mae ymholiadau yn mynd drwadd i Fae Colwyn. Diolchwyd Sgt Edwards am ei phresenoldeb yn y cyfarfod.
- 3. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan diddordeb.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Chwefror.** Ffion yn cynnig cywirdeb, a Hefina yn eilio. Pawb yn cytuno.
- 5. Cynghorwyr Sir – Adroddiadau.** Darllenwyd adroddiad Judith. Y Cynghorwyr yn ddiolchgar iawn iddi am ei gwaith caled bob amser.
- 6. Prosiect Canglwm – Pwyllgor Nebo a Nasareth – Prosiect Pentrefi.** Cafwyd adroddiad gan Dafydd am gynlluniau'r Grwp am y flwyddyn i ddod. Byddant yn parhau wrth y gors. Wedi chwistrellu y llynedd, a'r bwriad yw i injectio'r planhigion eleni gyda chwynladdwr er mwyn lladd y gwreiddiau. Dywedodd fod angen rhwng £700 a £1000 ar gyfer prynu offer i wneud y gwaith. Cynnigwyd: er mwyn cael y gwerth gorau am arian, gofyn i'r Grwp os oes bosib ymestyn i ladd chwyn yn y mynwentydd fel rhan o'r rhaglen chwistrellu sydd ganddynt. Byddai yn ffordd i'r Gymuned elwa o'r arian mae Cyngor yn ei gyfranu i'r Grwp, drwy ddileu'r rheidrwydd o orfod cyflogi contractiwr i wneud y gwaith chwistrellu yn y mynwentydd. Penderfynwyd trafod eto mis nesaf er mwyn gwneud penderfyniad ar ol i Pwyllgor Pentref Nebo gael cyfle i drafod.
- 7. Apel Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021.** Aros nes daw newyddion o'r cyfarfod Pwyllgor Apel a oedd yn cael ei gynnal heno.
- 8. Cytundeb Gosod Cae MacPelah.** Oherwydd yr ansicrwydd am amserlen gwaith tirlunio yn y cae, penderfynwyd cynnig i'r tenant presennol ymestyn ei denantiaeth am dri mis ychwanegol pro rata.
- 9. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd.** Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon – Dafydd yn cysylltu; Lon Tyddyn Agnes – llechi bras wedi eu rhoi ar ochr y lon; Darllenwyd ymateb Rhian George parthed cais grant ar gyfer cynllun offer cyfieithu cymunedol. Roedd yn dweud y byddai angen cynwys hyfforddiant cyfieithydd yn y cynllun a chais – y Cyngor yn meddwl efallai rhywun i gyfieithu rhai agweddau o gyfarodydd, ac y byddai cyfarfodydd lleol yn le da ar gyfer ymarfer sgil o'r fath. Barry am holi ADRA os oes ganddyn nhw ffynhonell o arian; Drain Cwtin wedi eu torri
- 10. Materion Pentrefi.**

Talysarn Yn dilyn darllen adroddiad Cyngor Cymuned yn y papur bro, cynnigwyd y dylid ymgynghori gydag Un Llais cyn cytuno i dalu am wasanaeth gan Cyngor Gwynedd (e.e. biniau halen). Y Cyngorwyr yn cytuno nad yw'r biniau halen yn gyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned, ac mai dim ond talu am eu llenwi ydym yn ei wneud; Sian Dafydd wedi bod mewn cyfarfod arall i drafod safle'r Parc Sglefrio. Dywedodd fod yr yswiriant yn ddwbl beth oedd wedi ei amcanu yn wreiddiol. Fe ddywedodd fod Cyngor Gwynedd yn edrych ar delerau i'w rhoi ar gytundeb. Cyfarfod cyhoeddus wedi ei drefu am 6.30 yh ar y 26ain o Fawrth. Sian yn mynychu, ond gwahoddiad i bawb; Darllenwyd ebost a dderbyniwyd gan Clwb Pel Droed y Celts ynglyn a'r ystafelloedd newid. Dywedodd y Clerc mai 8 mlynedd sydd ar ol ar y les. Roedd awgrym i'r Celts gysylltu efo Cyngor Gwynedd i ffurfioli gyda nhw, gan nad oes bwriad gan y Cyngor Cymuned i adnewyddu'r les pan ddaw'r cyfnod i ben. Roedd yn syndod nad yw'r system dwr yn cydymffurfio i reolau, gan mai'r dealltwriaeth yw mai'r Bwrdd Dwr a osododd y system pan godwyd yr adeilad. Rhoi cynnig i'r pwyllgor Clwb Pel Droed i gyfarfod efo Cyngorwyr Talysarn i drafod ymhellach.

Llanllyfni Cwyn nad oes arwyddion ar y ddwy ochr i'r llwybr sydd yn arwain o Lon Coed Cae Du at Lon Eifion; Un arwydd yn Nasareth (cyfeirio at Llanllyfni a Nebo) angen ei droi – wedi ei chwythu yn y gwynt.

Nebo Dafydd am wneud cais am 'Starter Pack' Cadw Cymru'n Daclus ar ran y Cyngor Cymuned - pentref Nebo am dacluso'r cae chwarae.

Penygroes Tyllau yn y ffordd o flaen Spinning Wheel, ac ar Ffordd Llwyndu. Y gwair dal heb ei dorri ar Ffordd Llwyndu; Cyfarfod wedi bod i drafod problemau traffic wrth ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Bro Llew. Barry wedi mynychu, a Judith a swyddogion o'r ysgolion gydag un swyddog o Gyngor Gwynedd. Y swyddog oedd efo'r cynlluniau ddim yn y cyfarfod, ac felly ni chafwyd unrhyw atebion o gwbl – y Cyngor yn siomedig iawn.

11. Llwybrau a Mynwentydd; Taliad llwybrau 2019-20 – cadarnhad y bydd taliad o £536.37 gan Cyngor Gwynedd tuag at y gwaith torri; Mark Ballam wedi cysylltu ac am yrru'r ddogfen yn ymwneud ag estyniad MacPelah; Arwyddion mynwentydd (ysbwrriel) yn barod. OP am drefnu iddynt gael eu gosod; Blwyddyn ar ol o'r tendr cynnal a chadw mynwentydd a llwybrau – trafod mis nesaf; Gwyndaf yn datgan fod cerrig man wedi eu gosod ar fwy o feddi yn Gorphwysfa – gofynwyd i'r Clerc hysbysu yn Llew nad oes hawl gan unigolion i wneud unrhyw fath o waith yn y mynwentydd a heb yswiriant pwrpasol; Gofynwyd i'r Clerc holi os oedd unrhyw ddatblygiad efo'r gwyn am fynediad ceffylau at 'bridleways'.

12. Taflen Ariannol, Taflen Gyllid, Biliau i'w Talu. Nid oedd y Clerc wedi derbyn manylion Yswiriant Cenedlaethol gan unrhyw un o'r Cyngorwyr ar gyfer talu lwfansau, fodd bynnag derbyniwyd nifer o rybuddion yn gwrthod y taliad. Nid oedd sicciau ar ol, a hyd yma, doedd y llyfr newydd heb gyrraedd. Gofynodd y Clerc am hawl i wneud taliadau dros y we y mis hwn, ac fe ganiatawyd hyn gan y Cyngor. Taliadau fel a ganlyn: A Johnson - £25 Ffon/Rhyngryd, A Johnson Derbynebaw £23.80, Idris Lloyd Jones £10152.00 (uwch na'r lefel awdurdod ar y cyfrif banc ar gyfer taliadau dros y we – rhaid aros am sicc), Zurich Municipal £1355.95, Dwr Cymru £101.16. Dywedodd y Clerc fod y banc wedi cysylltu ac angen cynnal arolwg diogelwch dros y ffon i bob cyfrif busnes. Roedd y Clerc wedi cytuno iddynt ffonio dydd Mercher gan y byddai peidio a chydymffurfio yn gallu golygu fod y cyfrifon yn cael eu rhewi. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r AS a gofyn sut mae'r banciau yn gweithredu mor haearnidd efo mudiadau gwirfoddol – roedd nifer o esiamplau ble'r oedd cyfrifon wedi eu cau. Roedd pryder fod gwirfoddolwyr yn mynd i flino a ddim eisiau gwirfoddoli dim mwyach; Diolchodd y Cadeirydd i Sian, Dafydd, OP a Gareth am yr holl waith rhagorol o fynd drwy dogfennau cyflogaeth, hysbysebu a swydd ddisgrifiad Clerc yn sgil cael Clerc newydd – bydd cyfweliadau yn cael eu cynnal ar yr 18ed o Fawrth. Diolchodd hefyd i Harry am yr holl waith mae'n ei wneud yn ymwneud a mynwentydd y Cyngor efo'r contractwyr a'r ymgymrwyr.

13. Cynllunio.C17/1071/22/LL – Halfway House, Talysarn – trosi i dy - cytuno; C20/0179/22/LL – Eglwys St Ioan, Talysarn – trosi i dy – pryder am ddiogelwch y fynedfa at y lle parcio. Lon yn gul, cerbydau yn parcio ochr y lon, gwelededd, dim lle i droi a perygl bagio i'r lon; C20/0126/22/ HD – Express Cars, Penygroes – ymholiad dymchwel a chlirio safle - cefnogi.

14. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cyfarfodydd yn ystod y mis: Glynllifon. Roedd OP a Barry wedi methu mynd ac wedi gorfod ymddiheuro. OP wedi mynychu cyfarfod Hunaniaith – cyfarfod oedd yn gofyn am syniadau, a roedd pob bwrdd yn son am fewnlifiad. Eisiau meddwl am ac edrych ar gynllun a chwilio am atebion nid cwestiynnau – trafod eto mis nesaf.

15. Gohebiaeth

***Cyngor Gwynedd:**

* Rhybuddion ffordd; Offer cyfieithu; Cyfyngiadau parcio. Rhannwyd yr wybodaeth efo'r Cyngorwyr. Offer cynllunio gweler eitem 9.

***Arall**

* Un Llais-dogfennau a rannwyd yn ystod y mis ; Swydd wag Un Llais; BREXIT – cyngor i drigolion a busnesau ; Ebost parthed lloches bws Penygroes. Dim sylwadau, oni bai am ar gyfer y lloches bws. Gyrru'r sylwadau at Cyngor Gwynedd, a'u hysbysu fod un o'r darnau Perspex wedi dad-gysylltu a hedfan i ffwrdd efo'r gwynt.

16. Ceisiadau am Arian: Teenage Cancer Trust; Eisteddfod Llangollen. Trafod mis Chwefror. Cafwyd llythyrau o ddiolch gan Llew a Canolfan Hanes Uwch Gwyrfai ac Eisteddfod Llanllyfni.